**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 2 CHWEFROR 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Janet Knott (Cadeirydd), Elfyn Williams, Shan Rees, Philip Davies, Eifion Jones, Jenny Jones, Carys Thomas, Rheinallt Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Viv Davies, Meinir James a Nicola Jones.

**Nododd y Cadeirydd gydymdeimlad dwysaf y Cyngor â'r Cynghorydd Meinir James a'i theulu yn dilyn colli ei thad a'i mam yng nghyfraith yn ddiweddar.**

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed Ionawr 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Cafwyd cadarnhad bod y gwaith, yn gyffredin â'r rhaglen Re:Fit ehangach, wedi'i ohirio am y tro tra'n aros am cytuno adnoddau neu grantiau gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn ddod i law yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd fod y Brigad Dân wedi cael problemau yn teithio trwy'r pentref y noson honno.
4. **Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad bod y mater wedi ei drosglwyddo i'r adran priffyrdd yn y Cyngor Sir (a oedd yn cario allan gwaith i gwella'r mater) oherwydd bod yr adran Strwythurau Priffyrdd yn fodlon nad oedd unrhyw faterion angen eu sylw oherwydd fod y strwythur draeniad yn glir o rwystrau ac yn ymweld i fod yn rhedeg yn rhydd. Nodwyd.
5. **FP29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
7. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd adroddiadau o goleuadau yn y lleoliad hefyd.
8. **Archwiliad o gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2022 –** Nododd y Clerc fod cyfrifon y Cyngor yn parhau i gael eu hystyried gan Archwilio Cymru. Nodwyd.
9. **Neuadd Gymuned Llandyfaelog –** Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y Neuadd. Nodwyd.

10. **Hyfforddiant Côd Ymddygiad –** Nododd y Clerc na fyddai Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd yn gallu darparu hyfforddiant gyda Chynghorau yn uniongyrchol, er hynny, roedd cynllun mewn lle i gael sesiwn yn Neuadd y Sir ar gyfer hwyrach yn 2023. Nodwyd.
11. **Bin sbwriel yn Constant –** Nodwyd fod bin newydd nawr wedi'i rhoi mewn lle.
12. **Prosiect Goleuadau Posibl yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir gyda phrosiect arfaethedig wedi'i gostio. Nodwyd hefyd fod y cartref nawr ar werth.
13. **Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin –** Darparwyd gwybodaeth ar opsiynau ar gyfer maint yr arwydd Cod QR ar gyfer Llandyfaelog. Nodwyd yr angen i sicrhau i gysylltu â'r holl eiddo oedd yn cael ei effeithio arno am ganiatâd.
14. **Cynllun Grant Tlodi Tanwydd a Chost Ynni Ynni Sir Gâr –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad nad oedd y cais grant a wnaed wedi bod yn llwyddiannus. Nodwyd.
15. **Cyngor Sir Caerfyrddin – Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder 20mya –** Disgwylid gwybodaeth wrth y Cyngor Sir ar ôl iddynt ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.
16. **Damweiniau ym Mancycapel –** Derbyniwyd cadarnhad byddai adolygiad safle yn cael ei gynnal rhwng y Cyngor Sir, Heddlu Ffyrdd a Gan Bwyll gydag adroddiad i ddilyn i'r Cyngor ar y canlyniadau. Nodwyd.
17. **Taflu anghyfreithlon o teiars yn Llwynhelyg –** Nodwyd nad oedd y teirars wedi cael eu casglu.
18. **Bin Capel Rama –** Derbyniwyd cadarnhad bod y Cyngor Sir ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad glanhau gan gynnwys y ceisiadau a dderbyniwyd am finiau. Byddai rhagor o wybodaeth yn dilyn unwaith y byddai hyn wedi'i gwblhau. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Llygredd Posibl yn yr Afon Gwendraeth ger Pont Rhydyronnen –** Derbyniodd y Cyngor gopi o adroddiad i Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â digwyddiad llygredd posib yn yr Afon Gwendraeth. Nodwyd hyn.
2. **Banc Barclays -** Datganiadau.
3. **Llywodraeth Cymru –** Ymgynghoriad ar Goffau Cyhoeddus yng Nghymru. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau ffordd dros dro yr U2223 Heol Llancwm, Cydweli o'i chyffordd gyda'r B4309 am bellter o 1 cilometr i gyfeiriad y de-orllewin er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd tra bod BT yn cael mynediad i'r rhwydwaith ar gyfer ceblau uwchben a thanddaearol, sy'n cael ei gynnal ddydd Llun 20ain Mawrth 2023 o 09:30 tan 15:30. Nodwyd.
5. **Bocs Grit Maesdolau –** Adroddwyd am ddifrod i'r blwch grit ym Maesdolau i'r Cyngor Sir. Roeddynt wedi ymweld i asesu'r blwch ac yn fodlon ar ei gyflwr. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Newyddion diweddaraf. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau hyfforddi Ionawr – Mawrth. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru –** Pwyllgor ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar y 30ain o Ionawr. Derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
9. **Cyngor Tref Caerfyrddin –** Gwahoddiad i ymuno â pharêd Dydd Gŵyl Dewi ar y 4$^{ydd}$ o Fawrth 2023. Bydd y Cadeirydd yn edrych i fynychu.

10. **Cloddiau ym Mhenymaes –** Derbyniwyd cyswllt mewn perthynas â'r posibilrwydd o gael gwared â chloddiau ym Mhen-y-maes a allai fod wedi digwydd heb ganiatâd cynllunio. Nodwyd hyn.
11. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys –** Gwybodaeth am gynhadledd Dydd Gŵyl Dewi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i'w chynnal ar 3ydd Mawrth. Nodwyd.
12. **Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog –** Llythyr gan yr Eisteddfod yn nodi pryder am ddyfodol yr Eisteddfod ac yn gofyn am gefnogaeth i gyfarfod cyhoeddus i drafod y mater yn Neuadd Llandyfaelog ar yr 21ain o Chwefror. Cytunwyd bod y Cyngor yn llwyr gefnogi dyfodol yr Eisteddfod ac er nad yw'n briodol i drefnu'r cyfarfod yn uniongyrchol, y byddai'n cefnogi trefniadau'r noson mewn unrhyw ffordd bosibl.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad pellach ar yr hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i'r ffens.
2. Derbyniodd y Cyngor dendrau ar gyfer y contract torri gwair ar gyfer 2023 fel a ganlyn:
    - Mark's Gardening Services £3,200.00
    - Michael Leefe Handyman £2,100.00
    - Wrenvale Nurseries and Landscapes £3,520.00
    - ASJ Maintenance £12,000.00
    - Cyngor Sir Caerfyrddin £11,734.70 (gyda casglu)
    - Cyngor Sir Caerfyrddin £7,024.18 (heb casglu)

    Cytunwyd y pris gan Michael Leefe Handyman.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc cyfanswm o 28 awr a weithiwyd yn ystod fis Rhagfyr gyda thâl o £504.00 yn cael ei gymeradwyo..

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2023 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
- Cystadleuaeth Bwgan Brain;
- Coroniad Ei Fawrhydi y Brenin.

Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau i weld a oedd unrhyw grantiau ar gael ar gyfer digwyddiadau i nodi'r Coroniad.

**10. Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol drafft i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Cytunwyd ac arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd i'w ddychwelyd.

**11. Cynllunio**

1. **PL/05311** - Estyniad ochr unllawr - Gellideg, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2NB. Dim gwrthwynebiadau.

**12. Cyfrifon – Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin** **£1,292.70** Gwelliannau goleuadau troedffordd LED taliad 2022-23 (£1,077.25 gyda TAW)
2. **Michael Leefe** **£504.00** Taliad Rhagfyr (gweler eitem 8)

| 3. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Ionawr a chostau | £679.08 | £26.00<br>£11.70<br>£7.00<br>£12.08 | £735.86 | £274.40 | £0.00 | £461.46 |

**13. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd problemau gyda loriau yn edrych i groesi Pont Rhydyronnen.
2. Bydd coeden yn hongian ar draws y briffordd yng Nghilgadan yn cael ei hadrodd i'w gwirio gan y Cyngor Sir.
3. Nodwyd tipio anghyfreithlon o cwpwrdd yng Ngarthowen.
4. Nodwyd bod gwastraff bwyd yn cael ei adael ar gyffordd Heol y Lan / Fferm Lan, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Tîm Gorfodi Amgylcheddol.
5. Nodwyd bod baw ci mewn bagiau yn cael ei adael wrth ymyl y blwch grit yn Lôn yr Ysgol, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Tîm Gorfodaeth Amgylcheddol. Bydd y Clerc hefyd yn codi'r angen i adnewyddu'r arwyddion baw ci.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 2il Mawrth 2023.**